Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar

# Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
**Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4WB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i leoli yn Ne Cymru, ac mae ganddo gyfanswm poblogaeth o 144,288. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 60 o ysgolion. Mae 48 o ysgolion cynradd, gan gynnwys pedair ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae naw ysgol uwchradd, gan gynnwys un ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol, mae dwy ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion.

Dechreuodd y prif weithredwr dros dro yn ei swydd ym mis Ionawr 2019 a phenodwyd y cyfarwyddwr corfforaethol ar gyfer addysg a chymorth i deuluoedd ym mis Mawrth 2017. Mae arweinydd y cyngor wedi bod yn ei rôl er mis Hydref 2016, a dechreuodd y prif ddeiliad portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg yn ei swydd ym mis Mai 2017. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol ym mis Hydref 2012.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o'r pum awdurdod lleol yng ngwasanaeth addysg ar y cyd Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer gwella ysgolion.

Yn 2018-2019, cyllideb addysg net y Cyngor yw tua £108 miliwn. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yw'r pumed isaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 18.1% o ddisgyblion rhwng pump a phymtheg oed yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 17.9%
- Mae 7.7% o ddisgyblion sy'n bump oed ac yn hŷn yn siarad Cymraeg yn rhugl, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.2%
- Mae 6.0% o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 11.0%
- Mae gan 20.2% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 22.6%
- Roedd 131 o blant o bob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2018, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 102 o blant o bob 10,000

## Crynodeb

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.  Mae dull yr awdurdod o gydweithio ar draws meysydd gwasanaethau a gydag ysgolion, sy'n cael ei adnabod fel 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr' ('Team Bridgend'), yn effeithiol, yn enwedig o ran gwella cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed.  Mae ysgolion yn rhan annatod o brosesau gwneud penderfyniadau am addysg.  Mae'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn dyrannu adnoddau i'w wasanaethau addysg a'i ysgolion yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a roddir i addysg yn y cynllun corfforaethol.

At ei gilydd, mae disgyblion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwneud cynnydd da rhwng yr oedrannau ysgol statudol, sef pump ac un deg chwech oed.  Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion uwchradd dros y tair blynedd ddiwethaf yn cymharu'n dda â safonau mewn awdurdodau lleol tebyg.  Fodd bynnag, mae safonau mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion yn cymharu'n llai ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol.  Nid yw deilliannau ar gyfer disgyblion oedran cynradd mor gryf ag ydynt ar gyfer y rheiny mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig mewn llythrennedd.  Ar draws yr awdurdod lleol, mae plant a phobl ifanc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.  Mae'r awdurdod lleol yn darparu prosesau a gweithgareddau strwythuredig ar eu cyfer, ac maent yn ymgysylltu'n dda.

Mae swyddogion gwella ysgolion yn yr awdurdod lleol yn cydweithio'n dda â swyddogion ac ymgynghorwyr o'r consortiwm rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion i wella.  Mae'r cymorth hwn yn effeithiol ar y cyfan, er bod cyflymdra'r cynnydd mewn ysgolion sy'n achosi pryder yn rhy araf.  Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo'n gryf i ddiwallu anghenion disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, ac mae'n darparu ystod dda o wasanaethau i gynorthwyo ysgolion a disgyblion.

Mae proses hunanwerthuso'r awdurdod wedi'i sefydlu'n dda ar draws y gyfarwyddiaeth, ac yn rhoi ystyriaeth dda i gyfraniadau gan ei randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr ysgol a disgyblion.  Mae hyn yn galluogi rheolwyr i werthuso ansawdd gwasanaethau, gan ystyried ystod eang o safbwyntiau.

## Argymhellion

A1 Codi safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd

A2 Gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn dosbarthiadau chwech

A3 Cynyddu cyflymdra'r gwelliant mewn ysgolion sy'n achosi pryder

A4 Cryfhau rôl Fforwm Strategol Addysg Cymru i sicrhau cynnydd amserol o ran cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr arolygiad, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion, ac ystyried diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis i gyhoeddi adroddiad yr arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas ag ymglymiad pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau mewn ysgolion a'r awdurdod lleol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

At ei gilydd, mae disgyblion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwneud cynnydd da rhwng yr oedrannau ysgol statudol, sef pump ac un deg chwech oed. Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion uwchradd dros y tair blynedd ddiwethaf yn cymharu'n dda â'r rheiny mewn awdurdodau lleol tebyg, gan gynnwys safonau mewn Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A* neu A neu gyfwerth gryn dipyn yn uwch nag ydyw mewn awdurdodau lleol tebyg.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran yr ysgolion cynradd y bernir gan arolygwyr Estyn fod ganddynt safonau da, o leiaf, islaw'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn benodol, mae arolygwyr yn aml wedi nodi gwendidau ym medrau llythrennedd disgyblion mewn ysgolion cynradd.

Mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda o gymharu â'r rheiny mewn awdurdodau tebyg, a'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn perfformio yn unol â'r cyfartaledd yng Nghymru ar y cyfan. Mae cynnydd grwpiau eraill o ddisgyblion sy'n agored i niwed, y mae gwybodaeth ddibynadwy yn bodoli ar eu cyfer, fel arfer yn cyd-fynd â chyfartaleddau cenedlaethol, o leiaf. Fodd bynnag, nid yw troseddwyr ifanc yn gwneud digon o gynnydd yn eu haddysg.

Mae safonau mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, yn enwedig wrth ystyried cyrhaeddiad blaenorol disgyblion, yn cymharu'n llai ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3 wedi bod ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru am y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach a chyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A* neu A yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol, a bu'r bwlch mewn perfformiad o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn ehangu dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae cyfran fach o bobl ifanc yn datblygu medrau defnyddiol ac yn cyflawni achrediadau a gydnabyddir yn genedlaethol trwy weithgareddau a ddarperir mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai ffurfiol gan wasanaethau cymorth ieuenctid.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran y rheiny sy'n gadael Blwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant bron wedi haneru, ac ar ddiwedd 2017, roedd yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru. Mae disgyblion sy'n agored i niwed wedi elwa'n fawr ar yr ystod werthfawr o brosiectau a gynigir ar draws yr awdurdod lleol i'w cynorthwyo, sy'n cyfrannu at y gostyngiad hwn. Er enghraifft, mae rhaglen gwyliau haf pum wythnos ar gyfer disgyblion cyfnodau allweddol 3 a 4 yn gysylltiedig â phrosiect 'Ysbrydoli i Gyflawni' ('Inspire to Achieve') a gynhelir yn llwyddiannus gan weithwyr ieuenctid gyda phartneriaid allanol fel Gyrfa Cymru. Trwy nodi'n gynnar, mae'r prosiectau hyn yn helpu cymell ac ymgysylltu â disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r ymgysylltu hwn yn cynnwys, er enghraifft, mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau a gynigir yn y rhaglen haf o feiciau cwad i weithdai cerddoriaeth, lle mae disgyblion yn datblygu medrau bywyd pwysig fel gweithio mewn tîm a dibynadwyedd. Serch

hynny, ar ddiwedd 2017, nid oedd cyfran uwch o gyrchfannau disgyblion Blwyddyn 11 yr awdurdod lleol wrth iddynt adael yr ysgol yn hysbys o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi aros uwchlaw cyfartaledd Cymru am y tair blynedd ddiwethaf, tra bod y gyfradd mewn ysgolion uwchradd naill ai wedi cyd-fynd â'r cyfartaledd hwn, neu wedi bod yn uwch, ar gyfer yr un cyfnod. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd, mae canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus islaw cyfartaledd Cymru am y tair blynedd ddiwethaf. Mae presenoldeb grwpiau sy'n agored i niwed yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol dros yr un cyfnod.

Mae nifer y gwaharddiadau parhaol wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2017, cafodd 12 disgybl eu gwahardd yn barhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd, sy'n gyfradd uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai islaw cyfartaledd Cymru am ddwy o'r tair blynedd ddiwethaf, ond mae'r gyfradd o fwy na phum niwrnod yn uwch ar gyfer y tair blynedd hyn.

Ar draws yr awdurdod lleol, mae plant a phobl ifanc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a wnaed gan eu hysgolion a'r awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol yn darparu prosesau a gweithgareddau strwythuredig ar eu cyfer, ac maent yn ymgysylltu'n dda. Mae pobl ifanc yn gwybod bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi ac yn gwneud gwahaniaeth. Er enghraifft, mae'r cyngor ieuenctid wedi cymryd yr awenau ar ran yr awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â 'thlodi mislif' trwy ei ysgolion. Bu aelodau o'r cyngor lleol yn gweithio gyda swyddogion yr awdurdod lleol i gynllunio, cynnal a dadansoddi arolwg ar draws pob ysgol ar yr agwedd hon, ac fe wnaethant gyflwyno eu canfyddiadau mewn adroddiad ysgrifenedig ar gyfer aelodau etholedig. O ganlyniad, mae posteri wedi cael eu dosbarthu i bob ysgol yn yr awdurdod lleol, a threfnwyd bod cynnyrch mislif ar gael am ddim.

Ar draws yr awdurdod lleol, mae plant a phobl ifanc yn elwa ar gyfleoedd defnyddiol i ddatblygu agweddau iach a diogel. Er enghraifft, yn 2018, bu tîm y blynyddoedd cynnar a gofal plant yr awdurdod lleol yn peilota'r 'rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol' a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed mewn ysgolion cynradd. Roedd y rhaglen tair wythnos yn cynnwys prydau iach bob dydd, yr oedd rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn ei mynychu am ddiwrnod bob wythnos. Fe wnaeth y fenter hon, y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei hailadrodd a'i hehangu yn 2019, helpu plant i wella eu medrau cymdeithasol a'u hyder, a chryfhau ymgysylltu â theuluoedd.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi strategaethau buddiol ar waith i wella iechyd a lles meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys rhaglen cymorth cyntaf iechyd meddwl i bobl ifanc, sy'n cael ei chyflwyno ar draws yr holl ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid, a chwnselwyr cymunedol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid, yn ogystal â chwnselwyr mewn ysgolion. Daeth 'Gŵyl Ddysgu' yr awdurdod lleol yn 2018 â chynrychiolwyr at ei gilydd o bob cyngor ysgol ar y diwrnod fforwm dysgwyr i ystyried 'Beth sy'n gwneud plant yn hapus yn yr ysgol?' Mae'r safbwyntiau hyn yn helpu llywio'r broses gwneud penderfyniadau yn y maes hwn mewn ysgolion unigol ac yn yr awdurdod lleol.

## Gwasanaethau addysg

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol, neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

### Pa mor drylwyr y mae'r awdurdod lleol yn herio perfformiad ysgolion ac yn sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth priodol i'w helpu i wella?

Mae swyddogion gwella ysgolion yn yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda swyddogion ac ymgynghorwyr o'r consortiwm rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion i wella. Mae dull 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr' a gyflwynwyd yn 2017 yn pwysleisio cydweithio rhwng ysgolion a rhwng ysgolion a swyddogion yr awdurdod lleol. Mae wedi sefydlu cyfrifoldeb ar y cyd am wella deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yn yr awdurdod lleol. Mae'r dull hwn wedi arwain at weithio agosach ymhlith ysgolion. Er enghraifft, mae ysgolion clwstwr yn gweithio gyda'i gilydd i rannu arfer effeithiol a chanolbwyntio ar fater cyffredin fel llythrennedd bechgyn neu les emosiynol disgyblion.

Mae 'Grŵp Gwella Ysgolion' yr awdurdod lleol, sy'n cynnwys uwch swyddogion ac aelodau etholedig, yn adolygu ysgolion sy'n achosi pryder yn rheolaidd. Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau amserol am ymyrraeth briodol gan yr awdurdod lleol yn yr ysgolion hyn i ysgogi gwelliannau trwy gyflwyno hysbysiadau rhybudd neu benodi arweinwyr dros dro a llywodraethwyr newydd, er enghraifft. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth priodol i'r lleoliadau nas cynhelir ar gyfer plant sydd islaw'r oedran ysgol statudol. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth hwn ar gael yn Gymraeg i leoliadau nas cynhelir cyfrwng Cymraeg.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae swyddogion ac ymgynghorwyr her yn adnabod eu hysgolion yn dda. Maent yn nodi eu cryfderau yn briodol ac yn darparu cymorth effeithiol i'w helpu i wella. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw ymgynghorwyr her sy'n gweithio gydag ysgolion wedi cydnabod diffygion pwysig na'r angen i arweinwyr ysgol wneud gwelliannau sylweddol.

Mae yna ychydig o ysgolion cynradd mewn categorïau statudol yn dilyn arolygiad. Mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn darparu cymorth i'r ysgolion hyn, ond bu cyflymdra'r gwelliant yn rhy araf. Yn yr ysgolion hyn, er bod yr awdurdod lleol yn delio'n briodol â materion yn gysylltiedig ag arweinyddiaeth a llywodraethu, mae meysydd pwysig fel addysgu gwan yn cymryd rhy hir i'w gwella. Caiff hyn effaith negyddol ar y cynnydd a wna disgyblion yn yr ysgolion hyn, a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Mae ymgynghorwyr her yn ymgymryd ag ystod dda o weithgareddau monitro yn ystod eu hymweliadau ag ysgolion. Er enghraifft, maent yn arsylwi gwersi, yn mynd ar deithiau dysgu, yn gwrando ar ddysgwyr ac yn edrych ar eu llyfrau. Yn yr achosion mwyaf defnyddiol, maent yn gwneud y gwaith hwn ar y cyd ag aelodau o dîm arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth ystyrlon am y cynnydd a wneir gan ddisgyblion. Mae'r broses hon yn nodi agweddau ar waith ysgolion y mae angen eu gwella. Er enghraifft, nododd taith ddysgu a gynhaliwyd

gan ymgynghorydd her fod angen gwella addysgu yn y cyfnod sylfaen. O ganlyniad, bu arweinwyr ysgol yn canolbwyntio'n dda ar y maes hwn, ac fe wnaethant ysgogi gwelliannau mewn modd amserol.

Mewn ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol, mae ymgynghorwyr her yn cynllunio pecynnau cymorth, sy'n ymgorffori cymorth gan y timau llythrennedd a rhifedd arbenigol o'r consortiwm rhanbarthol. Yn ychwanegol, mae arweinwyr cynnydd carlam yn darparu cymorth pwrpasol ar gyfer ysgolion, er enghraifft i adrannau mathemateg ysgolion uwchradd. Mae rhaglenni cymorth ar gyfer ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar feysydd allweddol i'w gwella, fel gwella darllen, ac ansawdd yr addysgu. Er bod ymgynghorwyr her yn casglu ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol pan fyddant yn monitro'r cymorth hwn, mae gwerthusiadau yn canolbwyntio'n sylweddol ar ddata a darpariaeth, yn hytrach na'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, a'r cynnydd a wnânt.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i wella cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim?**

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod gwella cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn flaenoriaeth. Mae gwella cyrhaeddiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn amcan yng nghynllun busnes y gyfarwyddiaeth addysg, ac mae lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a'r rheiny nad ydynt yn gymwys, yn strategaeth y maent yn ei rhannu â'r consortiwm rhanbarthol. Mae swyddogion yn olrhain y bwlch yng nghyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 dros gyfnod, ac yn gosod targedau priodol i leihau hyn. Fodd bynnag, nid yw eu pwyslais ar olrhain a lleihau'r bwlch bob amser yn ddefnyddiol, oherwydd gall y bwlch gau o ganlyniad i danberfformiad disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim. At ei gilydd, mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda o gymharu â'r rheiny mewn awdurdodau tebyg a'r cyfartaledd yng Nghymru.

Mae gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi bod yn flaenoriaeth dros y tair blynedd ddiwethaf hefyd. Mae'r ffocws hwn wedi helpu codi lefelau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae ymgynghorwyr her yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod gweithgareddau a ariennir gyda'r grant datblygu disgyblion yn cael eu cynllunio'n dda i ddiwallu anghenion disgyblion. Maent hefyd yn helpu ysgolion i rannu arfer effeithiol o ran defnyddio'r grant. Mae ychydig o ysgolion yn defnyddio'r grant i ddarparu cyfleoedd cyfoethogi ar gyfer disgyblion mwy abl neu dalentog, er enghraifft i dalu am ddarpariaeth cerddoriaeth neu offer chwaraeon. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gyfyngedig.

Yn 2018, cynhaliodd yr awdurdod lleol raglen beilot i ddarparu prydau iach, addysg am fwyd a maeth a gweithgarwch corfforol yn ystod y gwyliau haf i ysgolion. Mae swyddogion yn cydnabod gwerth y rhaglen hon o ran gwella lles disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ac maent yn darparu cyfleoedd i gyflwyno'r rhaglen i nifer gynyddol o blant yn 2019.

**Pa mor effeithiol yw strategaethau'r awdurdod lleol i wella deilliannau ar gyfer pobl ifanc mwy abl a thalentog?**

Mae gwella darpariaeth i gynorthwyo disgyblion sy'n fwy abl a thalentog yn flaenoriaeth yn yr awdurdod lleol, ond megis dechrau datblygu y mae eu cynlluniau i wella deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn. Ar hyn o bryd, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon craff ar wella deilliannau mewn ysgolion cynradd nac mewn cefnogi lles disgyblion ar draws ysgolion.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A* ac A ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn cymharu'n dda â'r rheiny mewn awdurdodau tebyg. Mae swyddogion ac ymgynghorwyr her yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r ysgolion uwchradd sy'n cefnogi cyrhaeddiad disgyblion mwy abl yn hynod effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, ceir prosesau clir ar gyfer nodi cryfderau disgyblion yn glir ac amserol, a gosod targedau cadarn. Caiff cynnydd disgyblion ei fonitro a'i olrhain yn drylwyr. Fodd bynnag, yn y sector cynradd, ni chaiff swyddogion ac ymgynghorwyr her ddarlun digon cywir o ansawdd y ddarpariaeth na'r cynnydd a wna disgyblion mwy abl a thalentog gan nad ydynt yn defnyddio ystod ddigon eang o dystiolaeth wrth wneud eu gwerthusiadau.

Mae llawer o ddisgyblion mwy abl a thalentog mewn dosbarthiadau chwech yn elwa ar gysylltiad yr awdurdod lleol â rhwydwaith Seren. Mae hyn yn darparu rhaglen gymorth fuddiol ar gyfer disgyblion â chyflawniad uchel ledled y rhanbarth. Trwy'r rhaglen, mae'r disgyblion mwyaf abl yn mynychu gweithdai academaidd, yn gwrando ar sgyrsiau ysbrydoledig ac yn cael cymorth ar gyfer ceisiadau prifysgol. Mae hyn wedi helpu codi dyheadau disgyblion, a chynyddu'r nifer sy'n derbyn cynigion i astudio mewn prifysgolion blaenllaw. Mae swyddogion yn cynnal adolygiadau rheolaidd mewn ysgolion gyda dosbarthiadau chwech i ddadansoddi a thrafod cynnydd disgyblion, a'u herio i wella deilliannau mewn pynciau penodol, fel gwyddoniaeth a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at welliannau digonol na chynaledig ym mherfformiad disgyblion mwy abl mewn Safon Uwch.

Mae Gwasanaeth Cerddoriaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu llawer o gyfleoedd cyfoethogi gwerthfawr i feithrin galluoedd cerddorol disgyblion, gan gynnwys cyrsiau preswyl ac addysgu arbenigol mewn grwpiau amrywiol sy'n briodol i'w cyfnod datblygu. Mae'r disgyblion mwyaf talentog yn cymryd rhan mewn digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol, fel Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a Gŵyl Genedlaethol Cerddoriaeth ar gyfer Pobl Ifanc. Mae'r profiadau hyn yn magu eu hyder ac yn eu helpu i ddatblygu eu medrau perfformio i lefel uchel. Mae rhaglen llysgenhadon myfyrwyr y gwasanaeth cerddoriaeth yn helpu cerddorion i ddatblygu medrau ehangach, gan gynnwys arweinyddiaeth, er enghraifft trwy gynnal ensembles mewn ymarferion a chyngherddau, a thrwy fentora cerddorion iau. Mae'r llysgenhadon yn cynllunio a chyflwyno digwyddiadau gyda phartneriaid allanol a grwpiau cymunedol, sy'n eu helpu i ddysgu am weinyddu yn y celfyddydau a datblygu medrau gwaith tîm, cyfathrebu a threfnu buddiol.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu strategaeth tymor hwy briodol i wella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, sy'n rhoi ystyriaeth dda i fentrau cenedlaethol. Mae trefniadau cydweithredol addas ar waith gyda'r consortiwm rhanbarthol i fwrw ymlaen â chamau gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer pob clwstwr o ysgolion i

gynorthwyo'r athrawon hynny sydd â chyfrifoldeb ysgol gyfan am wella darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n fwy abl a thalentog.

At ei gilydd, nid yw'r awdurdod lleol yn cyfleu ei strategaeth ar gyfer gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion yn ddigon da. Mewn llawer o achosion, nid yw ysgolion yn glir fod hon yn flaenoriaeth i'r gyfarwyddiaeth, ac nid ydynt yn gwybod pa gymorth sydd ar gael iddynt. Yn gyffredinol, ar draws yr awdurdod lleol, ychydig iawn o ysgolion sy'n rhannu'r hyn sy'n gweithio'n dda o ran gwella darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn diwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol?**

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo'n gryf i ddiwallu anghenion disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol ac mae'n darparu ystod dda o wasanaethau i gynorthwyo ysgolion a disgyblion. Mae swyddogion yn gweithio'n dda gydag ysgolion i nodi'r meysydd allweddol y mae angen iddynt fynd i'r afael â nhw, ac maent wedi gwella prosesau a darpariaeth i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae eu harfer o werthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Tîm Ymddygiad a Lles yn darparu strategaethau ataliol, hyfforddiant a chymorth defnyddiol i ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau rôl ei uned cyfeirio disgyblion (UCD) a'i ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol o ran cynorthwyo athrawon mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r gwaith hwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at bresenoldeb a lles disgyblion ar draws yr awdurdod.

Mae'r Tîm Grwpiau sy'n Agored i Niwed yn darparu man cyswllt gwerthfawr ar gyfer ysgolion sydd â phryderon ynghylch anghenion disgyblion. Mae'r tîm hwn yn darparu gwybodaeth gyson a chyngor effeithiol i ysgolion ynglŷn â sut i fanteisio ar wasanaethau a hyfforddiant, ac yn cefnogi ymateb graddedig yr awdurdod lleol i anghenion disgyblion yn dda. Mae'r berthynas waith gydweithredol rhwng y Tîm Grwpiau sy'n Agored i Niwed a'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant yn gryfder. Yn ychwanegol, mae dull gwell y tîm o weithio gyda gwasanaethau eraill, fel y Canolfannau Cymunedol Cymorth Cynnar, yn cynorthwyo ysgolion yn dda i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed yn effeithiol.

Mae gan Banel Mynediad at Addysg yr awdurdod lleol rôl hanfodol mewn gwneud penderfyniadau am leoliadau a chymorth ar gyfer yr holl ddysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae'r broses hon yn gryfder. Y Cyfarwyddwr Addysg a Chymorth i Deuluoedd sy'n cadeirio cyfarfodydd y panel, sy'n cynnwys aelodaeth eang a pherthnasol, gan gynnwys cynrychiolaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae ysgolion yn glir ynglŷn â'r broses ar gyfer cyfeirio at banel a deilliannau tryloyw penderfyniadau'r panel.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc i wneud cynnydd da yn eu dysgu?**

Mae tua 300 o ddisgyblion oedran ysgol yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, sy'n ychydig o gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y Tîm Grwpiau sy'n Agored i Niwed yw'r pwynt cyswllt unigol ar gyfer pob asiantaeth sy'n ymwneud â disgyblion sy'n derbyn gofal. Mae'r tîm hwn wedi cryfhau'r ffordd y caiff darpariaeth ei chydlynu, a hyfforddiant staff, i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Er enghraifft, mae'r tîm yn cyflwyno'r rhaglen Ysgolion sy'n Ystyriol o Blant sy'n Derbyn Gofal i staff ym mhob ysgol.

Mae'r awdurdod lleol yn casglu'r lefelau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal ym Mlynyddoedd 11 ac 13 a deilliannau ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 2, 6 a 9, ar sail asesiadau statudol athrawon neu arholiadau allanol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn monitro, yn olrhain nac yn adrodd yn effeithiol ar gynnydd disgyblion sy'n derbyn gofal. Nid yw'r system wybodaeth bresennol yn ddigon soffistigedig i gynorthwyo swyddogion i werthuso cynnydd o fannau cychwyn unigol disgyblion a thros gyfnod.

Ym mis Ionawr 2019, roedd 218 o ofalwyr ifanc hysbys mewn ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Tîm Grwpiau sy'n Agored i Niwed wedi sefydlu perthnasoedd gwaith da a dull o rannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant i ddarparu hyfforddiant a chymorth perthnasol i'r ysgolion y mae gofalwyr ifanc yn eu mynychu. Mae cerdyn adnabod gan ofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd sy'n helpu rhoi proffil uwch iddynt yn eu hysgolion. Mae staff ysgolion wedi dechrau gwneud mwy i gefnogi anghenion penodol y grŵp hwn o ddysgwyr, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd i gwblhau gwaith cartref yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes gan swyddogion yr awdurdod lleol ddigon o ddealltwriaeth o'r cynnydd a wna gofalwyr ifanc, nac effaith y gwasanaethau ar y deilliannau y maent yn eu cyflawni.

**Pa mor effeithiol yw gwaith yr awdurdod lleol i wella presenoldeb ysgol a lleihau gwaharddiadau?**

Mae gan yr awdurdod lleol ffocws cryf ar wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau. Mae ei weledigaeth ar gyfer presenoldeb yn adlewyrchu'r cyd-destun lleol yn dda. Mae'r strategaeth yn amlygu'r egwyddorion eang ar gyfer gwella presenoldeb ym Mhen-y-bont ar Ogwr, rôl yr awdurdod lleol, rôl rhieni a gwaith y swyddog lles addysg. Mae hefyd yn darparu enghreifftiau defnyddiol o weithio amlasiantaethol yn yr awdurdod, er enghraifft o ran cynnal patrolau triwantiaeth.

Mae swyddogion lles addysg yn gweithio'n effeithiol o fewn Canolfannau Cymunedol Cymorth Cynnar. Mae'r canolfannau hyn wedi eu lleoli ar draws Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cefnogi dull amlasiantaethol o ran sicrhau bod cymorth priodol ar gael i ddisgyblion a theuluoedd. Mae staff eraill sy'n cymryd rhan yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, heddweision, athrawon cymorth ymddygiad a gweithwyr ieuenctid. Mae swyddogion lles addysg yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd i nodi a monitro ysgolion sy'n achosi pryder a chytuno ar gamau dilynol priodol gyda'r ysgol.

Mae swyddogion lles addysg yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd grŵp 'Tîm o gwmpas yr Ysgol'. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o faes diogelu, cynhwysiant, yr heddlu a chyfiawnder ieuenctid. Mae'r cyfarfodydd misol hyn yn yr ysgol yn effeithiol o ran nodi ac ymateb i anghenion plant a phobl ifanc.

Mae cyfarfodydd y panel presenoldeb yn cynnwys rhieni, swyddogion lles addysg a staff ysgol. Maent yn archwilio sut i gefnogi a gwella presenoldeb disgyblion, ac yn arwain at gynlluniau gweithredu priodol sy'n cael eu monitro gan yr ysgol. Mae'r Tîm Grwpiau sy'n Agored i Niwed yn nodi disgyblion sy'n achosi pryder mewn perthynas â'u presenoldeb neu'u hymddygiad yn gynnar, ac yn ymyrryd yn ôl yr angen.

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn cymharu'n dda â phresenoldeb mewn awdurdodau lleol tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr awdurdod ar waharddiadau wedi cael effaith ddigonol ar gyfraddau gwahardd cyffredinol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer sicrhau darpariaeth addysg effeithiol ym Mhen-y-bont at Ogwr. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn dda ar draws yr awdurdod lleol, ar draws y gyfarwyddiaeth, ac i randdeiliaid a phartneriaid. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi tair egwyddor graidd, sydd wedi'u diffinio'n glir yn ei gynllun corfforaethol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllun y gyfarwyddiaeth i wella addysg. Mae'r cynllun corfforaethol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol yn dda, gan gynnwys Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, ac yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion lleol plant a phobl ifanc.

Mae cynllun busnes y gyfarwyddiaeth addysg a chymorth i deuluoedd yn adeiladu'n dda ar y cynllun corfforaethol a'i flaenoriaethau. Mae'r cynllun busnes, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag ysgolion, yn nodi tair blaenoriaeth allweddol arall. Adlewyrchir y blaenoriaethau addas hyn yn glir ym 'mapiau ffordd' y tîm, cynlluniau grŵp, cynlluniau perfformiad unigol, ac yn holl gynlluniau clystyrau o ysgolion hefyd.

O fewn y cynllun busnes, mae gan bob amcan ddangosyddion cynnydd wedi'u diffinio'n glir a chamau mesuradwy ar gyfer gwella. Mae graddfeydd amser yn benodol a realistig gyda chyfrifoldebau swyddog arweiniol wedi'u diffinio'n glir. Er bod camau gweithredu yn cynnwys mesurau cynyddol cyfyngedig ar gyfer olrhain cynnydd tuag at gwblhau, mae'r systemau monitro'r gyfarwyddiaeth a chorfforaethol yn darparu cyfleoedd da i nodi achosion o lithro, neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Mae proses hunanwerthuso'r awdurdod wedi'i sefydlu'n dda ar draws y gyfarwyddiaeth, ac yn rhoi ystyriaeth dda i gyfraniadau gan ei randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr ysgol a disgyblion. Mae hyn yn galluogi rheolwyr i werthuso ansawdd gwasanaethau, gan ystyried ystod eang o safbwyntiau. Mae'r deilliannau o'r broses hon yn rhoi gwybodaeth dda i reolwyr ac aelodau etholedig am waith y gyfarwyddiaeth, ac yn helpu rheolwyr i fynd i'r afael â materion a godwyd, a neilltuo adnoddau yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r holl wybodaeth sydd ar gael iddo, ac mae'n dibynnu gormod ar brif ddangosyddion deilliannau.

Mae gan y gyfarwyddiaeth strwythur gweithgor effeithiol, sy'n cynnig dull ffocysedig a chydweithredol o reoli ystod eang o faterion. Mae'r grwpiau hyn yn galluogi swyddogion i gyfnewid gwybodaeth yn hawdd, a cheisio atebion ar y cyd i broblemau sy'n dod i'r amlwg. Er enghraifft, caiff ysgolion sy'n achosi pryder eu monitro'n agos trwy'r Grŵp Gwella Ysgolion, caiff materion ar gyfer disgyblion unigol eu datrys trwy'r

Tîm Disgyblion sy'n Agored i Niwed ac fe gaiff risgiau ariannol sy'n dod i'r amlwg eu hystyried gan y bwrdd monitro ariannol.

Er nad oes mwyafrif cyffredinol gan grŵp gwleidyddol yr awdurdod sy'n llywodraethu, mae'r gweithio trawsbleidiol effeithiol yn galluogi'r awdurdod i barhau i gyflawni ei strategaeth ar gyfer addysg. Mae gan aelodau etholedig ddealltwriaeth dda o faterion addysg, ac maent yn gweithio'n dda gyda swyddogion i ysgogi gwelliant. Caiff aelodau eu cynnwys yng ngwaith y gyfarwyddiaeth trwy ymgysylltu'n rheolaidd â llawer o'r gweithgorau.

Mae adroddiadau i aelodau etholedig yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, ac yn helpu aelodau etholedig i ddeall y materion allweddol. Yn gyffredinol, mae swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth i aelodau yn glir, er enghraifft data ar berfformiad. Fodd bynnag, ni chaiff y goblygiadau allweddol sy'n deillio o'r wybodaeth hon eu hamlygu'n ddigon clir bob amser i helpu aelodau etholedig i ganolbwyntio ar y materion pwysicaf.

Mae'r awdurdod yn cyfathrebu'n dda â'i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys penaethiaid, rhieni ac asiantaethau allanol, ac yn rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau. Yn benodol, mae gan yr awdurdod ddiwylliant o wrando'n ofalus ar safbwyntiau plant a phobl ifanc, a'u hystyried. Mae strategaeth gyfranogi'r awdurdod yn galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu'n effeithiol ar faterion a phenderfyniadau pwysig. Er enghraifft, cyfrannodd niferoedd mawr o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd at yr ymgynghoriad cyhoeddus am doriadau i gyllidebau ar draws yr awdurdod lleol yn y dyfodol.

Mae dull yr awdurdod lleol o gydweithio ar draws meysydd gwasanaethau a gydag ysgolion, sy'n cael ei adnabod fel 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr', yn effeithiol. Mae ysgolion yn hanfodol i brosesau gwneud penderfyniadau am addysg. Mae penaethiaid yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynllunio, sy'n golygu bod camau gweithredu cytûn yn bodloni disgwyliadau penaethiaid. Mae hyn yn helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod ei gynlluniau yn bodloni amcanion strategol, ac yn mynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Mae gan yr awdurdod lleol berthynas dda â'r consortiwm rhanbarthol, ac mae'n cyfrannu'n dda at ei reolaeth, ei lywodraethu a'i graffu. Mae cynnwys ymgynghorydd her arweiniol y consortiwm o fewn uwch dîm rheoli'r awdurdod lleol yn arwain at ddeialog reolaidd am faterion perfformiad ysgolion, ac ymatebion cytûn iddynt. Dros gyfnod, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n dda gyda'r consortiwm i sicrhau bod gan ei ysgolion yr ymgynghorwyr her mwyaf priodol yn gweithio gyda nhw.

Mae'r gyfarwyddiaeth addysg a chymorth i deuluoedd yn nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau parhaus yn dda, ac mae'r broses rheoli risg yn asesu a blaenoriaethu'r rhain yn effeithiol. Caiff risgiau y nodwyd eu bod yn rhai uchel eu cynyddu'n briodol trwy'r strwythur rheoli corfforaethol, a'u rhannu o fewn yr adran ac ar draws yr awdurdod. Caiff risgiau â goblygiadau ariannol eu cyfleu'n briodol i'r tîm cyllid corfforaethol.

Mae gan yr awdurdod lleol egwyddorion cytûn sy'n llywio ei broses ad-drefnu ysgolion a chynllunio. Mae wedi gwella'i ddull ymgynghori statudol am ad-drefnu ysgolion, ac mae bellach yn fwy effeithiol wrth ymgynghori â rhieni, disgyblion, staff a

chymunedau lleol. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi dysgu o brofiad diweddar, bod angen iddynt roi mwy o ystyriaeth i effaith ysgolion newydd ar niferoedd y disgyblion mewn ysgolion cyfagos.

Bu'r awdurdod lleol yn araf wrth ddechrau cyflwyno ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020. Yn fwy diweddar, rhoddwyd mwy o flaenoriaeth i gynllunio ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae'n gwneud cynnydd cyflym. Ni fu'r arfer o fonitro rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith trwy'r Fforwm Strategol Addysg Gymraeg yn ddigon effeithiol. Tan yn ddiweddar, nid oedd wedi cyfarfod yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod camau gweithredu cytûn yn digwydd mewn modd amserol.

Adolygwyd trefniadau craffu'r awdurdod lleol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar. Gwelsant fod y broses graffu yn cael ei rhedeg yn dda ond bod angen ei haddasu i fodloni heriau yn y dyfodol. Cynigiodd yr adolygiad bum maes i'w gwella, ac fe'u derbyniwyd gan yr awdurdod lleol. Mae'r pwyllgor craffu ar gyfer addysg wedi dechrau addasu ei arferion gwaith i ystyried y rhain.

Mae rheolwyr yn defnyddio'r fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol yn effeithiol i gefnogi a datblygu staff yn eu rolau. Ceir cylch wedi'i ymgorffori'n dda o adolygu perfformiad ac adrodd amserol ar draws y gyfarwyddiaeth. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn glir ynglŷn â'r deilliannau y disgwylir iddynt eu cyflawni yn eu rolau.

Mae'r gyfarwyddiaeth addysg a chymorth i deuluoedd yn rheoli cwynion yn effeithiol. Sefydlwyd uned gymorth newydd i gydlynu ymatebion. Mae hyn wedi symleiddio'r broses ar gyfer achwynwyr, ac yn galluogi rheolwyr i adolygu patrymau o ran y pryderon a godir.

Mae'r gyfarwyddiaeth yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer swyddogion trwy'r Fframwaith Hyfforddiant Craidd corfforaethol. Mae swyddogion yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i'w datblygiad proffesiynol eu hunain. Mae swyddogion o feysydd gwasanaeth unigol yn cynllunio eu dysgu eu hunain, wedi'i lywio gan eu hadolygiad o berfformiad, ac yn unol â blaenoriaethau gwasanaeth. Mae hyn yn arwain at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd sy'n gweddu'n dda i anghenion staff. Fodd bynnag, nid yw'r gyfarwyddiaeth yn monitro ystod ac effaith yr hyfforddiant ar draws yr holl wasanaethau yn llawn.

Mae trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer diogelu mewn darpariaeth addysg yn briodol ac nid ydynt yn codi unrhyw achos i bryderu. Caiff materion diogelu sy'n ymwneud ag arfer broffesiynol eu rheoli'n dda a'u hadrodd i uwch reolwyr, fel y bo'n briodol. Mae arweinyddiaeth yr awdurdod lleol mewn materion diogelu i'w ysgolion yn dda.

Mae'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn dyrannu adnoddau i'w wasanaethau addysg a'i ysgolion yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a bennir i addysg yn y cynllun corfforaethol. Mae'r awdurdod wedi dangos ei ymrwymiad trwy wneud penderfyniadau i warchod cyllidebau dirprwyedig ysgolion, ble bynnag y bo modd, mewn cyfnod pan fo gostyngiadau mewn cyllidebau ar draws gwasanaethau eraill.

Mae gan yr awdurdod lleol fframwaith cynllunio ariannol corfforaethol cadarn. Mae'r ysgolion a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddeall y pwysau

ariannol y maent yn eu hwynebu yn y tymor byr a'r tymor canolig. Caiff gwariant ei fonitro'n rheolaidd ac yn fanwl yn unol â'r gyllideb o fewn ysgolion, ac mewn perthynas â chyllidebau a reolir yn ganolog o fewn yr awdurdod lleol. Mae gan swyddogion wybodaeth dda am ysgolion, ac maent yn deall yr anawsterau ariannol sy'n wynebu ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio cyllid corfforaethol wrth gefn i fynd i'r afael â phroblemau sylweddol yn yr ychydig iawn o ysgolion sy'n wynebu problemau ariannol. Mae lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan ysgolion yn is nag ydyw yn y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru, ac mae proses gynyddu briodol ar waith i reoli diffygion, pan fydd angen.

Mae gan y gyfarwyddiaeth addysg hanes cymysg o ran sicrhau arbedion ariannol cynlluniedig yn y blynyddoedd diwethaf. Mae pwysau yn y cyllidebau cynhwysiant a chludiant o'r cartref i'r ysgol hefyd wedi arwain at orwario mawr yn y flwyddyn ariannol bresennol, gan danseilio arbedion a wnaed mewn mannau eraill, o bosibl. Ceir partneriaeth effeithiol gyda'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ynghylch cyllido ysgolion, gan feithrin dealltwriaeth ar y cyd ar draws yr awdurdod fod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg i ysgolion. Mae'r cynllun cyllid ysgolion wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru dros yr ychydig fisoedd diwethaf, ac mae'r newidiadau arfaethedig yn destun ymgynghori ar hyn o bryd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019